# Cefnogi'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi mewn lleoliad gofal plant

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth gefnogi'r broses o gaffael iaith newydd neu ychwanegol yng nghyd-destun lleoliad gofal plant. Bydd yn eich galluogi i weithio gyda phlant pan fydd iaith y cartref yn wahanol i iaith y lleoliad. Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion ar gyfer cyfrannu at drochi ieithyddol a chynnwys teuluoedd, cyfrannu at asesu a chynllunio, a chyfrannu at alluoedd dysgu iaith plant. Mae'r safon hon yn ymwneud â throchi llwyr mewn iaith newydd ac nid yw wedi'i chynllunio i ymdrin â throchi rhannol lle mae iaith newydd neu ychwanegol yn cael ei haddysgu fel rhan o gwricwlwm.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cyfrannu at drochi ieithyddol yn y gweithle
2. nodi eich cryfderau a meysydd i'w gwella wrth ddefnyddio ieithoedd trochi drwy adborth gan eraill
3. archwilio ag eraill sut i gyflawni unrhyw welliannau yn eich defnydd o ieithoedd trochi
4. cefnogi plant i deimlo bod croeso iddynt drwy barchu eu hunaniaeth ddiwylliannol a defnyddio dulliau cyfathrebu llafar a di-eiriau
5. cyfathrebu gan ddefnyddio'r iaith drochi wrth ryngweithio â phlant er mwyn sicrhau dealltwriaeth a chysur
6. defnyddio arddangosfeydd, adnoddau, a dyfeisiau ac adnoddau digidol i gefnogi’r broses o gaffael iaith
7. cefnogi teuluoedd a'u cynnwys yn y prosesau o addysgu iaith i’r plant
8. cyfrannu at roi gwybodaeth i’r teuluoedd am gynnydd eu plant
9. arsylwi ar sgiliau cyfathrebu a rhyngweithiadau plant yn yr iaith drochi
10. cyfrannu at asesiadau drwy drosglwyddo gwybodaeth o arsylwadau a rhyngweithiadau
11. cyfrannu at gynllunio a gweithredu gweithgareddau’r cwricwlwm ar gyfer caffael iaith
12. ymgynghori ag eraill wrth gynllunio gweithgareddau penodol ar gyfer cefnogi dysgu iaith
13. defnyddio cyfleoedd heb eu cynllunio ar gyfer dysgu iaith
14. cefnogi plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd wedi’u cynllunio yn yr iaith drochi
15. annog a dathlu ymdrechion plant wrth ddefnyddio’r iaith drochi
16. ailadrodd ac ehangu i gefnogi datblygiad plant
17. defnyddio caneuon a rhigymau i gefnogi’r defnydd o’r iaith drochi
18. cyfrannu at gasglu adborth gan blant ac eraill i fwydo i mewn i’r prosesau monitro a gwerthuso
19. cyfrannu at gofnodion ac adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer caffael iaith newydd drwy drochi mewn lleoliad gofal plant
20. myfyrio ar sut y gwnaethoch gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth gefnogi’r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi mewn lleoliad gofal plant, gydag adborth gan eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. beth yw amgylchedd iaith drochi
2. sut mae newid o un iaith i drochi mewn iaith arall yn gallu effeithio ar blant
3. dylanwad diwylliant, cefndir ac iaith y cartref ar ddysgu iaith
4. pwysigrwydd sicrhau eich bod yn rhugl yn yr iaith drochi
5. pwysigrwydd cywirdeb yn yr iaith drochi ysgrifenedig
6. egwyddorion a thechnegau trochi ieithyddol yng nghyd-destun amgylcheddau dysgu
7. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi cyfathrebu effeithiol mewn iaith drochi
8. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y ffordd mae plant yn caffael iaith a sgiliau cyfathrebu
9. y camau y gall plant eu dilyn wrth gaffael ieithoedd newydd a sut mae ymateb i bob cam
10. pwysigrwydd defnyddio’r iaith drochi bob amser a phryd i wneud eithriadau
11. sut mae gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd yn y broses o gaffael iaith a sut y gallant gefnogi dysgu’r iaith yng nghyd-destun y cartref
12. gwerth gweithgareddau grŵp i blant wrth gaffael iaith newydd a sut i'w cefnogi
13. pwysigrwydd amgylchedd croesawgar a chyfeillgar ar gyfer dysgu iaith
14. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi’r broses o gaffael iaith
15. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth gaffael iaith
16. y mathau o arddangosfeydd, adnoddau, a dyfeisiau ac adnoddau digidol a ddefnyddir yn yr amgylchedd dysgu iaith
17. pwysigrwydd profiadau sy'n cael eu harwain gan blant yn ogystal ag oedolion, a sut i’w defnyddio ar gyfer dysgu iaith drochi
18. y cylch arsylwi, asesu a chynllunio ar gyfer caffael iaith
19. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill wrth gefnogi’r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi mewn lleoliad gofal plant
20. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer cefnogi’r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi mewn lleoliad gofal plant
21. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer cefnogi’r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi mewn lleoliad gofal plant

22. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth gefnogi’r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi mewn lleoliad gofal plant
23. sut mae eich profiadau personol a’ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth gefnogi’r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi mewn lleoliad gofal plant, a sut i fynd i’r afael â hyn
24. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth gaffael iaith newydd drwy drochi mewn lleoliad gofal plant

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD240

Cefnogi'r broses o gaffael iaith newydd drwy drochi mewn lleoliad gofal plant

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD240 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Caffael iaith, Trochi, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |